*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Medi 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)** |
| Swyddog Cyswllt | **Julie Brown, Rheolwr Pensiynau** |
| Pwnc | **Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cadarnhau i'r Aelodau fod rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) wneud penderfyniadau am elfennau disgresiynol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

2 Ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau am yr elfennau disgresiynol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Mae dyletswydd cyfreithiol ar yr Awdurdod i baratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig am ei benderfyniadau mewn perthynas â'r pwerau disgresiynol dan y rheoliadau sy'n gymwys i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**ARGYMHELLIAD**

4 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r penderfyniadau sy'n gymwys i bob elfen ddisgresiynol fel yr amlinellir yn Atodiad 1, i'w hymgorffori ym Mholisi Disgresiynol y Gwasanaeth ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

6 Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn darparu pwerau disgresiynol i sefydliadau sy'n aelodau ohono, mewn perthynas â rhai elfennau o'r cynllun. Dan gyfansoddiad yr Awdurdod, ni ellir dirprwyo'r pwerau disgresiynol hyn ac maent yn cael eu cadw i'r Awdurdod.

Mae disgresiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'u nodi yn Atodiad 1 ac maent yn ddibynnol ar gymeradwyaeth, byddant yn ffurfio polisi i'w ddilyn gan y Gwasanaeth. Mae Atodiad 2 yn rhestru'r prif Reoliadau sy'n gymwys i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**GWYBODAETH**

7 Yn dilyn dyfodiad cynllun pensiwn newydd yn 2014, mae'r disgresiynau cyfredol wedi cael eu hadolygu ac maent ar gael yn Atodiad 1, ynghyd â'r penderfyniad polisi a argymhellir.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Poisi Disgresiynol yn darparu eglurder ar gyfer gwneud penderfyniadau am rai materion pensiwn sy'n cyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae rhai penderfyniadau'n gallu effeithio ar y gyllideb o ran taliadau pensiwn y cyflogwr a'r effaith ar brisiadau actiwaraidd yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r gwaith o weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn darparu nifer o bwerau disgresiynol ar ran yr Awdurdod. |
| Staffio | Bydd effaith bosibl ar lefelau staffio os yw rhai disgresiynau'n dylanwadu'n gadarnhaol ar y broses y mae aelod yn ei defnyddio i wneud penderfyniadau am ymddeol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth |

**ATODIAD 1**

| Rhif | Rheoliad | Disgresiwn | Polisi |
|---|---|---|---|
| 1 | Rheoliadau 16(2)(e) a 16(4)(d) Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Ariannu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol** | Ariannu, yn llwyr neu yn rhannol, y cyfraniadau pensiwn ychwanegol ar ran gweithiwr pryd mae'r rhain yn cael eu talu gan gyfraniadau rheolaidd (Rheoliad 16(2)(e)) neu gan gyfandaliad (Rheoliad 16(4)(d)) (uchafswm £6,500). | Peidio â defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 2 | Rheoliad 16 (16) Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Dewis Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (APC) Rhannu'r Gost** | Ai ymestyn cyfnod o 30 diwrnod i aelod ddewis APC rhannu'r gost ar ôl dychwelyd o absenoldeb o'r gwaith, gyda chaniatâd heb gyflog pensiynadwy (heblaw oherwydd salwch neu anaf, seibiant perthnasol yn gysylltiedig â phlentyn neu seibiant gwasanaeth lluoedd wrth gefn), ai peidio. | Peidio â defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 3 | Rheoliad 17 (1)<br><br>**Costio Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC)** | Ai cyfrannu at drefniadau AVC rhannu'r gost ai peidio, faint ac ym mha amgylchiadau. | Peidio â defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 4 | Rheoliad 22 (7)(b), Rheoliadau Pensiynau<br><br>Rheoliadau Trosiannol paragraff 10 (6)<br><br>**Cyfuno Buddion: Cyflogaethau Cydamserol** | Caniatáu i aelod gweithredol sydd â chyflogaethau cydamserol ac sy'n rhoi'r gorau i gyflogaeth gyda hawl i bensiwn gohiriedig, gael cyfnod mwy na 12 mis i ddewis peidio â chael buddion eu cyfrif pensiwn aelod gweithredol ar ôl 31 Mawrth 2014.<br>(Cyn 1 Ebrill 2014 yn gymwys i reoliadau Amddiffyniad Trosiannol). | Peidio â defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 5 | Rheoliad 22 (8)(b), Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Cyfuno Buddion: Aelod Gohiriedig yn dod yn Aelod Gweithredol** | Caniatáu i aelod gohiriedig, sy'n dod yn aelod gweithredol eto, gael cyfnod mwy na 12 mis ar gyfer dewis peidio â chael buddion eu cyfrif pensiwn aelod gohiriedig ar ôl 31 Mawrth 2014, wedi'i gyfuno â'r buddion yn eu cyfrif pensiwn aelod gweithredol. | Peidio â defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 6 | Rheoliad 30(6), Rheoliadau Pensiynau a TP11(2) rheoliadau trosiannol | Ymddeoliad Hyblyg – i gytuno i weithiwr sy'n 55 oed neu hŷn ac sy'n lleihau ei oriau gwaith neu ei raddfa fel ei fod yn gallu derbyn peth neu'r cyfan o'i | Gellir defnyddio'r disgresiwn hwn pan fo'r Gwasanaeth o'r farn ei bod yn briodol caniatáu ymddeoliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad Hyblyg** | bensiwn ymddeoliad tra mae'n dal yn gyflogedig. | hyblyg a bod hynny'n gost-niwtral. Nid yw'r disgresiwn hwn yn rhoi hawl i ymddeoliad hyblyg. |
| 7 | Rheoliad 30 (8), Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Ildio Gostyngiad Actiwaraidd i Bensiynau** | Cytuno i ildio, yn gyfan neu'n rhannol, unrhyw ostyngiad a fyddai fel arall yn cael ei wneud ar dalu pensiwn yn gynnar i weithiwr 55 oed sy'n ymddeol o'i gyflogaeth bensiynadwy neu i'r pensiwn sy'n cael ei dalu i weithiwr sy'n cael cymryd ymddeoliad hyblyg dan Reoliad 30(6) o'r Rheoliadau Pensiynau. | I'w ddefnyddio yn yr amgylchiadau canlynol:<br>(1) Ni fyddai unrhyw gost i'r Gwasanaeth;<br>(2) Mewn achosion o galedi eithriadol neu sail tosturiol eithriadol; |
| 8 | Rheoliad 31, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Dyfarnu Pensiwn Ychwanegol** | Dyfarnu pensiwn ychwanegol i:<br>(1) aelod gweithredol; neu<br>(2) cyn-aelod gweithredol a gafodd ei ddiswyddo drwy ddileu swydd neu effeithlonrwydd busnes, neu y terfynwyd ei gyflogaeth drwy gydsyniad ei gilydd ar sail effeithlonrwydd busnes. | Peidio â defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 9 | Rheoliad 37 (3) a (4) Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Cyflogaeth â thâl** | Pan fo person sy'n derbyn pensiwn afiechyd haen 3 wedi dechrau cyflogaeth â thâl.<br><br>Ai adennill nrhyw bensiwn haen 3 a ordalwyd yn dilyn cychwyn cyflogaeth â thâl. | Adolygu'r buddion afiechyd yn unol â'r rheoliadau.<br><br>Defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 10 | Rheoliad 91, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Tystysgrifau Fforffedu** | Gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am dystysgrif fforffedu<br><br>Sylwer:<br>Gellir defnyddio tystysgrif fforffedu ar gyfer pryd mae aelod wedi cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd a gyflawnwyd mewn perthynas â chyflogaeth yr aelod ac sy'n rheswm pam mae'r aelod wedi gadael y gyflogaeth honno. Mae'r dystysgrif fforffedu yn dystysgrif sy'n cael ei rhoi gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ddweud bod y drosedd wedi bod yn niweidiol iawn i'r Wladwriaeth neu'n un a allai arwain at golli ffydd difrifol yn y gwasanaeth cyhoeddus. | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau arferol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Rheoliad 93, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Adennill Arian sy'n ddyledus o ganlyniad i Gamymddygiad** | Adennill arian sy'n ddyledus i'r cyn-weithiwr pan fo person wedi gadael cyflogaeth o ganlyniad i gamymddygiad difrifol neu weithred neu anwaith troseddol, esgeulus neu dwyllodrus mewn perthynas â'r gyflogaeth honno ac mae arno arian i'r cyflogwr o ganlyniad i'r camymddygiad, gweithred neu anwaith hwnnw.<br>Sylwer: os oes anghydfod am y swm sy'n ddyledus, ni chaiff y Gwasanaeth ond adennill yr arian o fuddion pensiwn y gweithiwr dan orchymyn llys neu ddyfarniad cymrodeddwr. | Defnyddio'r disgresiwn hwn |
| 12 | Rheoliad 100, Rheoliadau Pensiynau<br><br>**Trosglwyddo Hawliau Pensiwn i Mewn** | Caniatáu mwy na 12 mis i berson, gan ddechrau ar y dyddiad pryd mae'n dod yn aelod gweithredol mewn cyflogaeth, i ofyn am dderbyn gwerth trosglwyddo i rai hawliau pensiwn cronedig. | Defnyddio'r disgresiwn hwn yn ddibynnol ar y canlynol:<br>(1) mae'r aelod o'r cynllun wedi gofyn i ymchwiliadau gychwyn o fewn y deuddeg mis o gyfyngiad amser, neu<br>(2) os oes rheswm i gredu na fyddai'r unigolyn wedi gwybod bod angen gofyn am ymchwiliad i'r posibilrwydd o drosglwyddo i mewn, neu hawliau pensiwn blaenorol, cyn pen y terfyn amser o ddeuddeg mis, a bod ffeiliau AD a/neu bensiwn yn cefnogi hyn. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd cyfnod hirach yn cael ei ganiatáu, cyhyd ag nad oes rheswm hysbys neu siawns y bydd y gweithiwr yn cael mynediad at ei hawliau pensiwn yn y 12 mis nesaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 1 (2) ac 1 (1c)<br><br>**Rheol 85 mlynedd**<br><br>TPSch 2, para 1(2) & 1(1)(f) & R60 | Ai 'cynnau' y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn, neu ar ôl, 55 oed a chyn 60 oed (heblaw ar sail ymddeoliad hyblyg), ai peidio.<br><br>Ai 'cynnau' y rheol 85 mlynedd ar gyfer aelod sy'n bensiynwr sydd â buddion gohiriedig ac sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn, neu ar ôl, 55 oed neu cyn 60 oed, ai peidio.<br><br>Ai 'cynnau' y rheol 85 mlynedd i aelod sy'n gynghorydd â buddion gohiriedig sy'n tynnu buddion yn wirfoddol yn, neu ar ôl 55 oed, a chyn 60 oed. | Bydd y disgresiwn yn cael ei ddefnyddio, yn ddibynnol ar y canlynol:<br><br>Ni fydd y rheol 85 mlynedd yn cael ei chynnau cyn 69 oed os nad oes cost ychwanegol i'r Gwasanaeth. |
| 14 | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 1 (2) a 2 (2)<br><br>**Talu Pensiwn yn Gynnar yn achos Aelodau sydd ag Amddiffyniad Trosiannol** | Cytuno y dylai'r amddiffyniadau trosiannol sydd ym Mharagraff 1(3) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Trosiannol fod yn gymwys. Mae hyn yn effeithio ar aelodau sydd ag amddiffyniad trosiannol ac sy'n dewis ymddeol rhwng 55 a 60 oed. Mae'r amddiffyniadau trosiannol yn cynnig amddiffyniad cyflawn neu rannol o ostyngiadau actiwaraidd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. | Peidio â defnyddio'r disgresiwn hwn. |
| 15 | B30 (5)Rheoliadau Trosiannol paragraff 2 (1)<br>B30A(5)<br><br>**Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd**<br><br>31 (5) a Rheoliadau Trosiannol paragraff 2 (1) | Ai ildio, ar sail tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd sy'n gymwys i fuddion gohiriedig sy'n cael eu talu'n gynnar dan B30 (aelod), ai peidio.<br><br>Ai ildio, ar sail tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd sy'n gymwys i fuddion sy'n cael eu talu'n gynnar dan B30A (aelod sy'n bensiynwr â buddion gohiriedig), ai peidio.<br><br>Ai ildio, ar sail tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd sy'n gymwys i fuddion sy'n cael eu talu'n gynnar (cynghorwyr), ai peidio. | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio ymhob achos sy'n cael eu hadrodd yn ôl-weithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| 16 | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 2 (3) | Ai ildio, ar sail tosturiol, y gostyngiad actiwaraidd sy'n gymwys i fuddion o aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 pan fo'r Cyflogwr wedi 'cynnau' y Rheol 85 Mlynedd ar gyfer aelod sy'n tynnu | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio ymhob achos sy'n cael eu hadrodd yn ôl-weithredol i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ildio Gostyngiadau Actiwaraidd i bensiwn yn achos Aelodau sydd ag Amddiffyniad Trosiannol** | buddion yn wirfoddol yn, neu ar ôl 55 oed, a chyn 60 oed, ai peidio. | Awdurdod Tân ac Achub. |
| 2a | Atodlen 2, Rheoliadau Trosiannol paragraff 10 (6)<br><br>**Ymestyn y cyfnod opsiwn 12 mis** | Ai ymestyn y cyfnod opsiwn 12 mis i aelod (na ddaeth yn aelod o Gynllun 2014 yn rhinwedd rheoliad 5 (1)) i ddewis y dylai buddion gohiriedig cyn 1 Ebrill 2014 gael eu cyfuno gyda chyflogaeth newydd. | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio ymhob achos sy'n cael eu hadrodd yn ôl-weithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| **Rhif** | **Rheoliad** | **Disgresiwn** | **Polisi** |
| 18 | Rheoliadau Trosiannol paragraff 4<br><br>Rheoliad 31 (2), Rheoliadau Buddion<br><br>**Talu buddion gohiriedig yn gynnar** | Polisi ar gyfer aelodau'r cynllun sydd wedi gorffen aelodaeth weithredol ar, neu ar ôl, 01/04/1998 a chyn 01/04/2008.<br><br>Caniatáu cais i dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn, neu ar ôl, 50 oed ar sail tosturiol.<br><br>Caniatáu cais i dalu buddion gohiriedig yn gynnar yn, neu ar ôl, 50 oed a chyn 55 oed. | Bydd y disgresiwn hwn yn cael ei ddefnyddio ymhob achos sy'n cael eu hadrodd yn ôl-weithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub. |

Yn y tabl uchod:

(1) Ystyr "y cynllun" neu "y Cynllun Pensiwn" yw Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac ystyr "y Gronfa" neu "y Gronfa Bensiwn" yw'r gronfa sy'n cael ei chynnal dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

(2) Ystyr "aelod" yw aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

(3) Ystyr "aelod gweithredol" yw aelod sydd mewn cyflogaeth ac sy'n talu, neu'n cael ei drin fel un sy'n talu, cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, neu sy'n absennol o gyflogaeth am reswm a grybwyllir yn Rheoliad 11 o Reoliadau Pensiynau.

(4) Y cyfeiriadau at aelod sydd ag amddifyniad trosiannol yw'r rhai sydd ag amddiffyniad trosiannol statudol dan y Rheoliadau Trosiannol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, rhag newidiadau a fyddai'n cael eu gwneud fel arall i'w hawliau pensiwn a/neu rhag ostyngiadau actiwaraidd a fyddai fel arall yn gymwys i'w buddion pensiwn o ganlyniad i'r Rheoliadau Pensiynau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014.

(5) Y cyfeiriadau at aelod sy'n bodloni'r "rheol 85 mlynedd" yw'r aelodau y mae eu hoedran mewn blynyddoedd cyfan, o'u hychwanegu at gyfanswm aelodaeth yr aelod mewn blynyddoedd cyfan, yn 85 mlynedd neu fwy ac a ymunodd â'r cynllun cyn 1 Hydref 2006.

**ATODIAD 2**

Dyma'r Rheoliadau sy'n gymwys i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (cyfeirir at y rhain fel y "Rheoliadau Pensiynau");

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygio) 2014 (cyfeirir at y rhain fel y "Rheoliadau Trosiannol");

- Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, a gymhwyswyd i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn 1 Ebrill 2014, yn cael eu cadw yn rhannol ar sail trosiannol gan y Rheoliadau Trosiannol a chyfeirir atynt fel y "Rheoliadau Buddion";

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (**Gweinyddu**) 2008 a chyfeirir atynt fel y "Rheoliadau Buddion";

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (**Darpariaethau Trosiannol**) 2008;

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1997, fel y'u diwygwyd. Cyfeirir atynt fel y "Rheoliadau Buddion'').